



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB
Maer: Cyng Chris Jones Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, RHAGFYR Y 7^{fed}
2022**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Tachwedd yr 16^{eg} 2022 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn a thrafod ceisiadau grant:
 1. Clwb Pêl-droed Llanfairfechan
 2. Banc Bwyd Llanfairfechan
 3. Medalau Ras Siôn Corn Active Llan
7. Derbyn gwybodaeth a thrafod prosiect dathlu Prosiectau Cymunedol Llanfairfechan – Cyng. Penny Aindow
8. Derbyn gwybodaeth a thrafod yr arwyddion rhybuddio am faw cŵn
9. Derbyn gwybodaeth ariannol a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Ffair Nadolig Llanfairfechan
10. Derbyn gwybodaeth am Brosiect Cynllunio Cymunedol Kickstarter
11. Derbyn gwybodaeth a thrafod Man Gwyrdd Ffordd yr Orsaf
12. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Rhagfyr 2022
13. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Rhagfyr 2022

Taliadau i'w cyflwyno

Ffair Nadolig Llanfairfechan

1. Rheoli Traffig gan Amberon yn y Ffair Nadolig £1362.00
2. Peintio wynebau Tammy Hales £280.00
3. Rhodd Beulah Brass £50.00
4. Gosod goleuadau Nadolig CBSC £11452.95
5. Sêr ar gyfer y goeden Babanod o Amazon £9.99
6. Choirs for Good £80.00
7. Sêr ar gyfer coeden Pant y Rhedyn o Amazon £16.66
8. Llogi Neuadd Gymunedol Llanfairfechan ar gyfer y marchnadoedd ym mis Rhagfyr £170.00
9. Trwydded TENS Kirsty Merrell Daily ar gyfer Rhagfyr £21.00
10. Baneri Nadolig Sional £1172.86
11. Gosod baneri Nadolig G Roberts £1200.00

Cyfanswm £15,588.46

Taliadau cyffredinol

12. Sedd Siglo newydd CBSC £156.00
13. Gwe-letya a chynnal a chadw Delwedd £698.72
14. Sgipiau Cymunedol CBSC £576.00
15. Menter Iaith £350.00
16. Cyflogau Staff a chyfraniadau Pensiwn ar gyfer Tachwedd 2022 £4700
17. Cais grant Active Llan am Fedalau Ras Siôn Corn (taliad ôl-ddyddiedig) £92.99

14. Trafod materion cynllunio

0/50209 Dwyfor. Y Clos, Llanfairfechan, Conwy LL33 0AG Torri 2 x goeden bîn i lawr

15. Derbyn gohebiaeth

16. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

17. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF AR NOS FERCHER, RHAGFYR Y 7^{fed} 2022

Presennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Laura Fielding; Maer Chris Jones; Cyng Leena Farhat (ar Zoom); Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Gareth Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg (ar Zoom). Cynghorydd Sir Jacob Williams yn bresennol: Roedd Clerc y Dref, Jayne Neal yn bresennol a bu iddi baratoi'r cofnodion

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng Penny Andow; Cyng Pat Griffiths

Penderfynwyd derbyn a nodi

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol neu ragfarnol)

Cyng Andrew Hinchliff	diddordeb personol	Eitem 13:8	diddordeb ddim yn peri rhagfarn
Cyng Chris Jones	diddordeb personol	Eitem 13: 8	diddordeb ddim yn peri rhagfarn
Cyng Christine Roberts	diddordeb personol	Eitem 13:8	diddordeb ddim yn peri rhagfarn
Cyng Alun Rhys Jones	diddordeb personol	Eitem 6:2	diddordeb ddim yn peri rhagfarn

Penderfynwyd derbyn a nodi

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd. Dim

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Tachwedd yr 16^{eg} 2022 a'r rhestr weithredu (DLIL 1972 Atodlen 12)

Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu a'u nodi wedi'u darllen. Materion yn codi:

Eitem 9 – yn sgil y costau, fe ddylid cyflwyno'r mater o oleuadau Nadolig ar gyfer ymgynghoriad cymunedol yn 2023/24

Eitem 11 – typo Roedd y Cynghorydd Pat Griffiths wedi'i cholli yn sgil y cysylltiad Zoom

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List		
Date: 7th December 2022		
Item:	Date:	Progress
Nant y Pandy car park	03/10/2022	lease being drawn up
Paddling Pool	ongoing	email sent 5th Dec
Promenade car park & flood protection	04/10/2022	awaiting notification from WG
Benches project	on agenda	ongoing process
Cenotaph - mural	emails sent	on hold for discussion on future agenda
Victoria Gardens gates	email received	ongoing process
Glan y Mor Elias & Morfa Madryn project	agenda	funding meeting taken place /sign up paperwork
MUGA West Shore	progressing	information being gathered - difficult to progress
Community Library	update	Item 15 - meetings
Petanque court	awaiting	Town Twinning grant application will come in January
Audit	completed	awaiting response no queries sent through
Kickstarter Community Plan	update	Item 10
Festive Fayre and xmas lights	agenda	Item 9
Christmas Flags	update	Item 9
Winter Sounds festival	update	Item 9

Roedd y rhan fwyaf o'r materion ar y rhestr weithredu ar yr agenda hefyd felly ni fu trafodaeth.

Meinciau – Clerc i e-bostio contractwr i drafod enw ar y faic.

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng G Jones

Penderfynwyd derbyn a nodi

6. Derbyn a thrafod ceisiadau grant:

1. Cais Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan

Dadansoddiad o'r gwaith a'r prisiau

1) Adeiladu storfa goliau concrid gyda ffens o'i chwmpas. Rydym yn ffodus fod unigolyn sy'n gysylltiedig â'r clwb wedi cynnig cwblhau'r gwaith am ddim, mae ond angen inni dalu am y deunyddiau. Mae o'n adeiladwr proffesiynol. Byddai dyfynbris am waith o'r fath oddeutu £5000.00 fel arfer

gan drydydd parti yn sgil y llafur a'r costau cyflenwol (pont isel) - £1800.00

2) Ychwanegu llethr goncridd bach i'r llwybr o amgylch y cwt te i sicrhau mynediad i bobl anabl. Byddwn yn defnyddio'r un concrid, wedi'i gynnwys yn y pris uchod - £0

3) Trwsio drws yr ystafell newid (gof lleol) - £110.00

4) Cyrsiau Gofalwyr Tir ar gyfer gwirfoddolwyr. 2x Gwrs Cynnal a Chadw Tir Lefel 1,

2x Lleiniau Gaeaf Lefel 2 - £378.00

Cais grant - £2288.00 Cyllideb presept £1250.00

Trafodwyd y mater hwn ac fe gytunwyd bod y pwyllgor newydd yn gweithio er lles y gymuned bob amser ac yn cynnig gweithgareddau gwych i deuluoedd yn Llanfairfechan. Cytunwyd y gellir cyflawni'r cais am gyllid ychwanegol gyda chyllid wrth gefn y Cyngor Tref ac felly byddai modd cyflwyno'r swm cyflawno o £2288.00 .

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng C Jones

Penderfynwyd derbyn a nodi

2. Cais Banc Bwyd Llanfairfechan

Cais grant £3000 Cyllideb presept £2000.00

Doedd yna ddim llawer o fanylion ar y cais hwn oherwydd yr unig gostau sydd ynghlwm â Banc Bwyd ydy ar gyfer prynu bwyd. Soniwyd, yn sgil yr argyfwng costau byw, mae'n gyfnod anodd dros ben i deuluoedd ac felly fe gytunwyd cyflwyno'r cais cyflawn am £3000. Soniwyd bod y grŵp yn cynnal cynllun cyfrannu misol – Clerc i ofyn am y manylion fel bod modd i'r aelodau etholedig hyrwyddo'r cynllun. Cafodd y Cyngor Tref eu hatgoffa fod modd i grwpiau cymunedol, p'un ai ydyn nhw'n elusennau cofrestredig ai pheidio, geisio am gymorth rhodd sy'n golygu 25c am bob £1 gaiff ei gyfrannu. Clerc i hysbysu'r Banc Bwyd am hyn.

Cynigwyd gan y Cyng E Owen Eiliwyd gan y Cyng N Jones

Penderfynwyd derbyn a nodi

nodi

3. Cais Ras Siôn Corn Active Llan

Cafodd 100 o fedalau eu prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fe ddefnyddiwyd eu hanner nhw yn 2021 (yn sgil Covid19).

Cais am 50 o fedalau eleni oherwydd mae disgwyl y bydd mwy o gystadleuwyr.

Cais Grant £92.99

Fe gytunwyd ar benderfyniad dangosol yn flaenorol gan fod angen archebu'r medalau.

Clerc i gyflwyno adroddiad grantiau cymunedol yn y cyfarfod nesaf er mwyn helpu gosod cynllun cyllideb 2023/2024.

nodi

7. Derbyn gwybodaeth a thrafod prosiect dathlu Prosiectau Cymunedol Llanfairfechan – Cyng Penny Andow
Roedd y Cyng Andow methu â bod yn bresennol oherwydd roedd cyfarfod brys gan CBSConwy felly fe ohiriwyd y
mater tan y cyfarfod nesaf
Penderfynwyd
derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a thrafod arwyddion rhybuddio am faw cŵn

Soniodd y Cyng Laura Fielding y bu sawl adroddiad am gynnydd mewn baw cŵn ar y palmentydd a bod ymchwil gan Cadwch Brydain yn Daclus yn dangos y bu i'w harwyddion arwain at ostyngiad o 40% o ran problemau yn sgil baw cŵn ond soniodd hefyd fod y gost i ymuno a'u hymgyrch yn uchel gan ei fod dros £2000. Awgrymwyd bod y Cyngor Tref yn prynu eu harwyddion pren eu hunain i'w gosod mewn ardaloedd lle mae problemau'n bodoli. Mae Ffordd yr Orsaf wedi'i nodi fel un man problemus penodol ers dyfodiad nosweithiau tywyll yr hydref. Mae bagiau baw cŵn wedi'u gosod yno ond mae rhywun yn eu dwyn unwaith i'r Cyngor eu rhoi nhw yno ynghyd â'r blwch sy'n eu dal nhw, felly mae hyn yn anghynladwy. Clerc i e-bostio adran rheoleiddio a goleuo Conwy i drafod caniatâd. Mae cyfarpar ar gael i osod yr arwyddion ar y polion lampau. Clerc a Chynghorydd i fynd ati i holi am ganiatâd ac ymchwilio prynu'r arwyddion. Byddan nhw'n adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn gwybodaeth ariannol a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Ffair Nadolig Llanfairfechan

Mae dathliadau'r Nadolig wedi'u heffeithio'n sylweddol gan waith cynnal a chadw a gosod y goleuadau Nadolig o amgylch y dref. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn nodi nad oes hawl gan wirfoddolwyr osod goleuadau ar y ffordd fawr a dim ond contractwyr sydd wedi cofrestru gyda HERS allai ymgymryd â'r gwaith. Bu i hyn gyfrannu tuag at chwalfa'r pwyllgor Goleuo Llan yn ystod haf 2021. Mae'r Cyngor Tref wedi cytuno y byddai cronfa wrth gefn y Cyngor Tref yn talu am gostau'r Goleuadau Nadolig ar gyfer Rhagfyr 2022.

Bu'r gwiriadau trydanol PAT a'r costau gosod yn £11,815.35. Awgrymwyd cyflwyno'r mater hwn ar gyfer ymgynghoriad ymysg y trigolion cyn Nadolig 2023 gan ei fod yn swm sylweddol ac yn gyfwerth â 9.5% o gyfanswm Cyllideb y Cyngor Tref. Mae gweddill y gyllideb ar gyfer y ffair nadolig yn eithaf cymedrol, sef £3780. Mae £1362.00 tuag at reoli'r ffordd sydd ar gau ac mae hyn ond yn ofynnol oherwydd bod gennym ni ffair bleser ar y stryd. Mae'r swm hwn yn fasnachol gystadleuol ar gyfer digwyddiad diwrnod llawn o'r fath raddfa. Bydd y Ffair Nadolig ar ddydd Sul, Rhagfyr yr 11eg o 12yp tan 6yh gyda dros 55 o stondinau Bwyd, Crefftau a grwpiau cymunedol. Bydd tîm staff a chynghorwyr y Cyngor Tref yn rheoli'r digwyddiad gyda chymorth gan dîm ffyrdd o Amberon, bydd Siôn Corn o Glwb Rotari Llanfairfechan a Phenmaenmawr a chymorth cyntaf gan Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru. Bydd Heddlu Gogledd Cymru'n bresennol ac rydym wedi derbyn yr holl ganiatâd gofynnol gan CBS Conwy ar gyfer cynnal y digwyddiad. Bydd ymgynghoriad cyflawn i drigolion ar gychwyn 2023 i dderbyn eu barn am y goleuadau nadolig – mae'r gronfa wrth gefn yn talu'r gost eleni, ond bydd angen sicrhau bod y cynlluniau'n gynaliadwy ac o fewn y gyllideb gan edrych tua'r dyfodol.

- Mae yna 43 o stondinau wedi cadw lle yn y brif neuadd ar gyfer y Ffair Nadolig.
- Mae yna 12 o stondinau cymunedol ychwanegol yn neuadd Ysgol y Babanod ynghyd â stondin peintio wynebau am ddim.
- Mae gan gyfeirlyfr Marchnad Bwyd a Chrefftau Llanfairfechan dros 80 o fusnesau lleol ar y rhestr ac mae'r farchnad fisol yn cynnig stondin am ddim pob mis i ddwy elusen leol.
- O'r Ffair Nadolig ymlaen, bydd disgwyl i'r stondinwyr dalu £10 am stondin ac fe fydd hyn yn codi oddeutu £430.00 pob mis. Cost llogi'r ganolfan gymunedol fyddai £170. Mae hyn yn golygu fod £260 yn weddill bob mis i fynd tuag at farchnadoedd a digwyddiadau cymunedol.
- Bydd cerddoriaeth nadolig yn y gasebo y tu allan i'r brif neuadd o 12.30yp hyd at 4yp.
- Bydd y Gymuned yn canu Carolau ar y llwyfan o 5yh – 6yh ac fe gaiff y Cynghorwyr eu hannog i alw heibio i ymuno gyda'r canu yn y brif neuadd.

Dyma'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth:

During this extension period, the employing organisation must ensure contractor competency is checked and verified. Please see table below for guidance on the required competency training for works on the highway.	
Competency Element	Training Module (Knowledge)
Health and Safety	Emergency First Aid at work Manual Handling
Installing/Removing Traffic Management on the highway	Lantra Sector Scheme 12D Or SWQR – Operative Trained Or SWQR – Signing and Guarding
Hand Tools and Power Tools	HESA 204 - Equipment specific Or City & Guilds – Electrical/Electrotechnical (Part1&Part2, 2357 Level2/3, 2365 Level2/3)
Working at height using a MEWP/Cherry Picker	MEWP Operator Licence – IPAF 1B Or MEWP Operator Licence – NPORS Vertical Mounted(Static)
Working at height using a Ladder	Ladder Association User/Inspector Or Alternative recognised ladder user training
Working at height using a Mobile Scaffold Platform	PASMA
Visual, Optical & Electrical safety	HESA706 - Visual, Optical and Electrical Inspection Or City & Guilds 2391/2392 and City & Guilds 2382-18
Safe Interaction and Safe Isolation of Highway Electrical Equipment	HESA214 - Safe Isolation Or City & Guilds – Electrical/Electrotechnical (Part1&Part2, 2357 Level2&3 or 2365 Level2&3)
Authorisation to work in the vicinity of DNO equipment	HESA210 - G39 Or Scottish Power OP-03 ERG39 Authorisation is required to open Light Column enclosures
Diagnose and Repair faulty electrical equipment	NVQ Highway Electrical Level 3 Or City & Guilds – Electrical/Electrotechnical (Part1&Part2, 2357 Level2&3 or 2365 Level2&3)
Installing/Removing electrical equipment	NVQ Highway Electrical Level 3 Or City & Guilds – Electrical/Electrotechnical (Part1&Part2, 2357 Level2&3 or 2365 Level2&3)
Initial Verification and Testing - Certifying equipment	HESA714 Or City & Guilds 2391/2392

Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn gwybodaeth am Brosiect Cynllunio Cymunedol Kickstarter

Estynnwyd diolch anferthol i aelodau'r grŵp partneriaeth cynllunio cymunedol a wnaeth fynychu'r cyfarfod datblygu terfynol ar ddydd Mercher, Rhagfyr y 30^{ain}. Soniwyd ei fod yn gyfarfod dwys ac fe gwblhawyd sawl gweithgaredd. Ffurfiwyd grŵp trigolion gyda Chadeirydd dros dro, Sam Davies. Mae Cymorth Cynllunio Cymru wrthi'n llunio Cynllun Cymunedol Kickstarter ar gyfer Llanfairfechan. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd modd mabwysiadu'r cynllun fel cynrychiolaeth ffurfiol o farn y trigolion ar gyfer datblygu Llanfairfechan yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Tref ond mabwysiadu'r cynllun Kickstarter unwaith y bydd yr ymgynghoriad gyda'r trigolion wedi'i gwblhau. Cynllun i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Ebrill. Byddwn yn rhannu adborth yn y cyfamser.

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn gwybodaeth a thrafod Man Gwyrdd Ffordd yr Orsaf

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) wedi rhoi caniatâd erbyn hyn ac fe ellir bwrw iddi gyda'r gwaith i dcluso'r man hwn. Mae Bwyd Bendigedig a chynllun Perllan Llanfairfechan yn bwriadu cydweithio i greu man perlysiu a ffrwythau sy'n hawdd ei drin yma. Gellir manteisio ar gyllid i gyflawni'r deiliant hwn ac mae CBS Conwy wedi dweud y gallan nhw dcluso'r ardal ond byddan nhw'n codi am y gwaith. Mae'r Clerc hefyd wedi cysylltu gyda Creu Menter ynghylch y gwaith hwn ac yn dilyn trafodaethau, gallai'r gwaith hwn fod yn rhan o'u prosiect gwaith nhw. Bydd y cynlluniau ar gyfer y prosiect hwn ar waith yn 2023/24 a bydd y staff yn llunio ceisiadau grant ar y cyd i allu gweithredu'r prosiect. Awgrymwyd llunio murlun graffiti ar ochr yr is-orsaf ond bydd angen cael caniatâd. Gofynnwyd i'r grŵp Perllan newydd ddod i gyfarfod y Cyngor Tref i drafod eu cynlluniau yn y dref a sut gallwn ni gydweithio.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Rhagfyr 2022

Cafodd yr adroddiadau eu dosbarthu a'u nodi wedi'u darllen. Codwyd un ymholiad – roedd y taliad i CBS Conwy am yr etholiadau wedi'i dalu dwywaith. Mae hyn wedi'i ad-dalu eisoes a bydd yn ymddangos yn adroddiadau ariannol Ionawr.

Bu pryderon gan fod y gangen HSBC yn cau ym Mae Colwyn – Clerc i drefnu cardyn talu mewn i'w ddefnyddio yn y swyddfa bost.

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng C Roberts

Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Rhagfyr 2022

Taliadau i'w cyflwyno	
Ffair Nadolig Llanfairfechan	
18. Rheoli Traffig gan Amberon yn y Ffair Nadolig	£1362.00
19. Peintio Wynebau Tammy Hales	£280.00
20. Rhodd Beulah Brass	£50.00
21. Gosod goleuadau Nadolig CBSC	£11452.95
22. Sêr ar gyfer y goeden Babanod o Amazon	£9.99
23. Choirs for Good	£80.00
24. Sêr ar gyfer coeden Pant y Rhedyn o Amazon	£16.66
25. Llogi Neuadd Gymunedol Llanfairfechan ar gyfer y marchnadoedd ym mis Rhagfyr	£170.00
26. Trwydded TENS Kirsty Merrell Daily ar gyfer mis Rhagfyr	£21.00
27. Baneri Nadolig Sional	£1172.86
28. Gosod baneri Nadolig G Roberts	£1200.00
	Cyfanswm £15,588.46
Taliadau Cyffredinol	
29. Sedd Siglo newydd CBSC	£156.00
30. Gwe-letya a chynnal a chadw Delwedd	£698.72
31. Sgipiau Cymunedol CBSC	£576.00
32. Menter Iaith	£350.00
33. Cyflogau Staff a chyfraniadau Pensiwn ar gyfer Tachwedd 2022	£4700
34. Cais grant Active Llan am Fedalau Ras Siôn Corn (taliad ôl-ddyddiedig)	£92.99

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng Chris Jones

Penderfynwyd derbyn a

nodi

14. Trafod materion cynllunio

0/50209 Dwyfor. Y Clos, Llanfairfechan, Conwy LL33 0AG

Torri 2 X goeden bîn i lawr

Dim arsylwadau. Dilyn cyngor y swyddogion coed

Penderfynwyd derbyn a

nodi

15. Derbyn gohebiaeth

Gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru

1. Bu sawl digwyddiad ac adroddiadau am unigolyn sy'n peri pryder yn Llanfairfechan. Roedd un digwyddiad i fyny'r mynydd ac mae'r system cyfiawnder troseddol wedi mynd i'r afael â hwnnw fel trosedd trefn gyhoeddus. Dydy hyn ddim yn cyd-fynd gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynwr ac fe ofynnwyd i'r clerc am holi am eglurder. Mae cynrychiolwyr o'r Heddlu wedi sicrhau bod y gwasanaethau ynghlwm â'r achos ac maen nhw wrthi'n monitro'r sefyllfa. Fodd bynnag, mae pobl wedi cysylltu gyda'r Cyngorwyr droeon ynghylch sawl digwyddiad sy'n peri pryder ac maen nhw o'r farn bod angen cynnig cyngor pendant. Cyngor yr Heddlu ydy y dylid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiad cyn gynted â phosibl ar y llinell ffôn 101 neu gysylltu drwy'r ffurflen ar-lein yma: [Cartref | Heddlu Gogledd Cymru](#). Mae trigolion yn dechrau ofni bygythiadau ac yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ganlyniad. Roedd y Cyngor Tref yn anfodlon yn unfrydol gyda'r sefyllfa bresennol ac fe wnaethon nhw ofyn i'r clerc fynd i'r afael gyda'r drafodaeth eto gan anfon e-bost brys at Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn iddyn nhw reoli'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn yn fwy effeithiol.
2. Difrod Troseddol i geir – yn anffodus, er gwaethaf ymholiadau o ddrws i ddrws ac adroddiadau gan CCTV domestig, does dim tystiolaeth i fynd i'r afael â hi ac ni chafodd unrhyw dystion eu hadnabod. Mae'r Heddlu'n cynghori y dylid adrodd am unrhyw ddigwyddiadau pellach cyn gynted â phosibl ar y llinell ffôn neu gysylltu drwy'r ffurflen ar-lein yma: [Cartref | Heddlu Gogledd Cymru](#).

Y Feddygfa – Hysbysiad gan Richard Marriot, Arweinydd Busnes a Sicrwydd ar ran Meddygfeydd Grŵp Llanfairfechan ei fod yn gadael ar ddiwedd y mis. Clerc i e-bostio i holi pwy ydy'r person cyswllt dros dro nes bydd y broses recriwtio wedi'i chwblhau. O ganlyniad, fe gaiff y gwaith gyda'r Grŵp Ymgysylltu gyda Chleifion ei ohirio

am y tro ond rydym yn rhagweld y byddan nhw'n ailgydio yn y gwaith unwaith y bydd yr Arweinydd Busnes a Sigrwydd newydd wedi'i recriwtio.

Penderfynwyd derbyn a nodi

16. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Pwyllgor Darganfod Llan – Cyng Andrew Hinchliff. Bu'r calendrau'n llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf a doedd dim angen grant ar y grŵp gan y Cyngor Tref oherwydd roedd ganddyn nhw arian wrth gefn i'w ddefnyddio. Penderfynwyd cyflwyno grant o £750 i'r grŵp Achub Bywyd o'r Môr newydd i ategu eu gwaith ardderchog i sicrhau bod plant a theuluoedd yn fwy diogel ar ein traeth drwy'r dosbarthiadau diogelwch nofio ac achub bywydau.

Pwyllgor Neuadd Pendalar – Cyng Claire Hughes. Mae gan y pwyllgor swyddogion dros dro ar waith erbyn hyn ac maen nhw wrthi'n llunio'u cyfansoddiad. Popeth yn gadarnhaol ac maen nhw wrthi'n gweithio er mwyn sicrhau bod modd i'r neuadd ailagor unwaith y byddan nhw wedi cytuno ar brydles gyda CBS Conwy.

Llyfrgell Gymunedol Cyfeillion Llanfairfechan – Mae'r Swyddogion wedi'u pennu erbyn hyn Cadeirydd: Huw Lloyd Jones, Is-gadeirydd Vanessa Dye, Trysorydd Charlotte (cyn-archwilydd), Ysgrifenyddes Jessica Barton. At hyn mae 8 aelod pwyllgor arall a thri chynrychiolydd o'r Cyngor Tref (does dim hawl ganddyn nhw i bleidleisio). Mae'r pwyllgor wedi cytuno y dylai Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor Tref gynnal sesiwn reolaidd yn y llyfrgell o 10yb tan 1yp ar fore Mercher. Maen nhw wrthi'n llunio cais am grant Mannau Cynnes i dalu am y sesiwn hon a chynnig gweithgareddau. Soniwyd y bydd y pwyllgor yn derbyn cymorth gan Suriyah Evans o CBSC i ail-lunio'r CLG.

Penderfynwyd derbyn a nodi

17. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Mae'r prosiect partneriaeth rheilffyrdd wedi'i ohirio am y tro yn sgil newidiadau gyda staff – bydd yn parhau unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau
2. Pryderon am ddiogelwch ffyrdd ger cornel Parc Crescent. Cytunodd y Cynghorydd Sir i fynd i'r afael â'r eitem hon a bydd yn adrodd yn ôl
3. Ffordd Parc – pryderon ynghylch parcio yn yr ardal a phoendod i gymdogion. Maen nhw wedi gofyn am linellau melyn. Clerc i e-bostio Rheolwr Traffig a Rhwydwaith CBS Conwy ac adrodd yn ôl.
4. Sawl adroddiad fod y Cefnogleoedd pêl-droed Cymru / UDA i deuluoedd yn y Neuadd Gymunedol yn llwyddiant ysgubol. Llongyfarchiadau i'r clwb pêl-droed am gynnal digwyddiad mor wych i deuluoedd.
5. Sylw i rieni gymryd gofal yn sgil yr achosion diweddar o'r dwymyn goch / Strep A. Llythyr cynghori wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac mae rhieni wedi'u cynghori i geisio triniaeth yn gynnar os ydyn nhw'n amau fod gan eu plant y dwymyn goch / Strep A. Mae angen trefnu hyn drwy'r Meddyg Teulu.
6. Adroddiad y bydd Parc Crescent yn cael ei heffeithio gan ffordd wedi cau am hyd at 21 diwrnod yn sgil gwaith brys gan Dŵr Cymru.
7. Adroddiad bod y goleuadau stryd yn Stryd Pool wedi'i drwsio erbyn hyn
8. Soniwyd bod y cyngerdd Gigs y Gaeaf yn y Neuadd Gymunedol yn llwyddiannus dros ben. Derbyniwyd llawer o adborth cadarnhaol ac mae tîm digwyddiadau CBS Conwy yn awyddus i gydweithio gyda Llanfairfechan wedi iddyn nhw dderbyn cymorth arbennig.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:10yh

Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar nos Fercher, Ionawr yr 11^{eg} 2023.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd